# Tymor y Gwanwyn 2026 – Thema Awyr Iach – Dosbarth Myrddin

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**  | Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae eu dewisiadau bob dydd yn effeithio ar eu hiechyd nhw a iechyd pobl eraill. Byddant yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a dychmygol, fel dewis rhwng cerdded neu ddefnyddio'r car, bwyd iach neu llai iach, a defnyddio plastig neu ailgylchu. Byddant yn ysgrifennu stori neu adroddiad byr i esbonio canlyniadau pob dewis, ac yn trefnu'r wybodaeth mewn tabl neu graff. Byddant hefyd yn **defnyddio offer digidol i greu sleidiau neu graffiau** sy'n dangos effaith eu penderfyniadau, gan ddysgu sut gall gwneud dewisiadau gwybodus wella eu hiechyd a bywyd pobl eraill, nawr ac yn y dyfodol. |
| **Dyniaethau.**  | Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae cymunedau yn ymateb i newid hinsawdd a sut mae gweithgareddau dynol lleol yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn cerdded o gwmpas Parc Dinefwr neu eu hardal leol i arsylwi sut mae pobl yn rhyngweithio â'r amgylchedd – cerdded, parcio, chwaraeon, sbwriel – ac yn ysgrifennu brawddegau byrion am yr hyn a welsoch, gan gyfri nifer o bobl a nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Byddant hefyd **yn tynnu lluniau neu recordio fideo byr i ddogfennu'r arsylwadau**, ac yn trafod sut mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar awyr iach a bywyd gwyllt. Yn ychwanegol, byddant yn dewis un math o weithgarwch dynol lleol i'w ymchwilio'n fanwl, gan greu adroddiad byr, graffiau neu ddeunydd digidol sy'n dangos yr effaith, a dysgu sut gall newid ymddygiad pobl helpu i gadw'r byd naturiol a'r awyr yn iach. |
| **Gwyddoniaeth.**  | Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar berthynas rhwng pethau byw. Byddant yn arsylwi ecosystem leol, gan fynd am dro o gwmpas Parc Dinefwr i nodi planhigion, anifeiliaid a mannau gwyrdd, ac yn creu map syml sy'n dangos lle mae pobl yn mynychu a pha effaith y gallai hynny gael ar natur. Byddant **yn rhestru a chyfri planhigion a bywyd gwyllt lleol**, **tynnu lluniau i greu albwm digidol**, ac yn trafod sut mae awyr iach a chynaladwyedd yn effeithio ar oroesi'r pethau byw hyn. Yn ogystal, **byddant yn dylunio poster** neu fap sy'n dangos cylch bywyd lleol a sut mae pobl a natur yn cydweithio i gynnal ecosystem iach, gan ddeall cyd-ddibyniaeth pethau byw a'r effaith o weithgareddau dynol. |
| **Celfyddydau Mynegiannol**  | Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio natur Bro Dinefwr trwy gelf a gwaith creadigol. Byddant yn edrych ar luniau, fideos a gwaith artistiaid i ddeall bywyd gwyllt a phwysigrwydd awyr iach, ac yn creu lluniau neu gollage sy'n dangos planhigion, anifeiliaid a'r amgylchedd. Byddant yn myfyrio ar y neges y mae eu gwaith yn ei chyfleu, **rhannu adborth gyda'u cyfoedion**, ac yn datblygu eu gwaith yn seiliedig ar y sylwadau hyn. Byddant hefyd yn **defnyddio offer digidol i dynnu lluniau neu greu fideo o'u prosiect**, yn **ysgrifennu brawddegau am eu gwaith**, ac yn cofnodi elfennau creadigol neu ddeunyddiau a ddefnyddir, gan gynnwys paent, papur, sbwriel ailgylchu neu ddeunyddiau naturiol. Byddant hefyd yn creu perfformiad neu ddrama fer sy'n dangos effaith gweithredoedd dynol ar natur. |







# Tymor y Gwanwyn 2026 – Thema Awyr Iach – Dosbarth Myrddin

**Cyd-destun Lleol:**








